



Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty

GELLIFOR  
LLANYCHAN  
LLANGYNHAFAL  
HENDRERWYDD



NID YW AR Y FFORDD I UNRHYW LE

NOT BEING ON THE ROAD TO ANYWHERE

---

## CYFLWYNIAD I'R PLWYF

Mae Llangynhafal yn blwyf tawel a heddychol, “gan nad yw ar y ffordd i unman”. Mae'n gyfuniad hardd o bentrefi a thir fferm, gyda dwy eglwys, capel Methodistiaid Calfinaidd, dwy dafarn, ysgol gynradd ffyniannus a phoblogaeth o oddeutu 634 (2011). Mae llain o dir fferm yn gwahanu'r rhan hynaf o'r plwyf oddi wrth y canolfannau poblogaeth yn Hendrerwydd a Gellifor, ac mae'r ail o'r ddau'n enwog am ei goed eirin duon.

Mae Llangynhafal hefyd yn blwyf gwasgarog iawn, yn ymestyn o grib Bryniau Clwyd i lawr i ddyffryn yr afon Clwyd. Saif bedair milltir i'r gogledd-ddwyrain o Ruthun a chwe milltir i'r de-ddwyrain o Ddinbych, rhwng pentrefi Llanbedr DC a Llandyrnog. Mae ffin y plwyf sifil yn ymestyn am ychydig dros 12 milltir, o Dŵr y Jiwbili ar Foel Famau i'r dwyrain, ar draws ffrwd Nant y Ne hyd at afon Clwyd yn Nhelyn i'r gorllewin. Mae'r ffin yn dilyn afon Clwyd nes bydd yn symud i'r gogledd-ddwyrain, gan estyn allan i gynnwys Hendrerwydd ac yn ymlwybro o amgylch ffermydd Lodge Farm a Pentre. Oddi yno, mae'r ffin yn dringo'r dyffryn rhwng Moel Arthur a Moel Llys-y-Coed, gan ddilyn y grib heibio i Foel Dywyll, cyn dychwelyd i olygfeydd trawiadol o Dŵr y Jiwbili.

---

## INTRODUCING THE PARISH

Llangynhafal is a quiet and peaceful parish, “not being on the road to anywhere”. It is a pretty mix of villages and farmland, with two churches, a Calvinist Methodist chapel, two inns, a well-attended primary school and a population of approximately 634 (2011). The older part of the parish is separated by a belt of farmland from the centres of population at Gellifor and Hendrerwydd, the former being famous for its damson trees.

Llangynhafal is also a widely-scattered parish, stretching from the ridge of the Clwydian Range to the valley bottom of the river Clwyd. It lies four miles north-east of Ruthin and six miles south-east of Denbigh, between the villages of Llanbedr DC and Llandyrnog. The civil parish boundary extends for just over twelve miles, reaching from the Jubilee Tower on Moel Famau to the east, across to the Nant y Ne stream to the river Clwyd at Telpyn in the west. The boundary follows the Clwyd until it moves north-east, jutting out to include Hendrerwydd and diverting around the farmsteads of Lodge Farm and Pentre. From there the boundary runs up the valley between Moel Arthur and Moel Llys-y-Coed, following the ridge past Moel Dywyll, before returning to stunning views from the Jubilee Tower.



---

## CYNNWYS

LLEOLIAD	2
HANES Y PENTREFI	4
Y GYMUNED A BYWYD GWLEDIG	6
Y TAI ANGHYFANNEDD	10
LLWYBRAU CERDDED	14
FFLORA A FFAWNA	16
DIWYDIANT AC AMAETH	18
ENWOGION	22
EGLWYSI A FFYNNON SANCTAIDD	24
ORIEL	28

---

## CONTENTS

LOCATION	2
THE HISTORY OF THE VILLAGES	4
COMMUNITY AND RURAL LIFE	6
THE ABANDONED HOUSES	10
WALKING ROUTES	14
FLORA AND FAUNA	16
INDUSTRY AND AGRICULTURE	18
FAMOUS PEOPLE	22
CHURCHES AND HOLY WELL	24
GALLERY	28



## LLEOLIAD

*Golygfa o Foel Arthur o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa*

*View of Moel Arthur from the Offa's Dyke Path National Trail*



## ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL

Mae Ardal o Harddwch Naturol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn rhan o ffin fynyddig drawiadol Gogledd Cymru. Mae'r AHNE yn cwmpasu 390 km sgwâr o fryniau agored, gweundir grug, creigiau a dyffrynnedd calchfaen, ac yn ymestyn o'r de o Brestatyn yn y gogledd i frig Moel Fferna (630m) ym Mynyddoedd anghysbell y Berwyn yn y de. Mae'n cynnwys amrywiaeth o ffermydd gweithredol, coedwigioedd a lleoliadau hamdden gynaliadwy.

Er ei bod yn enwog am ei harddwch naturol, mae dyn wedi dylanwadu ar y dirwedd ers cyn i lwythau Oes yr Haearn adeiladu bryngaerau ar hyd Bryniau Clwyd a mynyddoedd Llantysilio. Nodwedd bwysig arall a grëwyd gan ddyn, yw Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa sy'n croesi trwy'r AHNE gyfan o Brestatyn i'r Waun. Mae'n ffordd wych o archwilio natur, treftadaeth a diwylliant Cymreig lleol. Mae'r llwybrau cydgyssylltiedigol niferus, y tirweddau gwarchodedig, yr abatai, y trefi a'r cestyll sydd i'w gweld gerllaw'r llwybr wrth iddo ymlwybro i'r de tua Chas-gwent yn creu taith hir ac anturus drwy ran o Gymru - a Llangynhafal yw un o'r uchafbwyntiau!

## AN AREA OF OUTSTANDING NATURAL BEAUTY

The Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) form the dramatic upland frontier of North Wales. The AONB covers 390 square km of windswept hilltops, heather moorland, limestone crags and valleys, reaching from just south of Prestatyn in the north to the summit of Moel Fferna (630m) in the remote Berwyn Mountains in the south. It comprises a vibrant mix of working farms, forestry and sustainable recreation.

While famous for its natural beauty, this landscape has been shaped by humans since before Iron Age tribes built hill forts along the Clwydian Range and Llantysilio mountains. Offa's Dyke Path National Trail is another important manmade feature, running through the whole AONB from Prestatyn to Chirk. It is a great way to explore local Welsh nature, heritage and culture. The multitude of interconnecting paths, protected landscapes, abbeys, towns and castles which run off the path as it winds south to Chepstow, make for a long distance Welsh adventure - with Llangynhafal as one of the highlights!

## LOCATION

*Plwyf Llangynhafal*

*Llangynhafal Parish*



## PARC GWLEDIG MOEL FAMAU

Mae Moel Famau a chryn dipyn o'r tir o'i amgylch yn creu Parc Gwledig Moel Famau. Gweundir grug a welir ar y bryniau hyn, ac mae'n gynefin ryngwladol bwysig. Mae llawer o'r Parc Gwledig yn dir comin, lle mae gan nifer o ffermwyr yr hawl i bori defaid. Mae gweundir grug wedi bod yn bwysig i'r diben hwn erioed, ond mae angen ei reoli i gael y gorau ohono. Drwy ei losgi a'i dorri, bydd grug yn tyfu o'r newydd gan greu porfa ffres i'r defaid. Mae hefyd yn creu ardaloedd nythu a bwydo arbennig i adar yr ucheldir. Un rhywogaeth arbennig o bwysig yw'r rugiar ddu, un o adar mwyaf prin Cymru, a welir yma mewn niferoedd bach – cyfrifwyd rhwng 10 a 20 o wrywod yma yn y blynnyddoedd diwethaf. Ben bore yn y gwanwyn, daw'r ceiliogod ynghyd i arddangos eu hunain a chystadlu am y ieir. Mae'r "paru" hwn yn werth ei weld.

## MOEL FAMAU COUNTRY PARK

Moel Famau and much of the surrounding land make up Moel Famau Country Park. The mountains here are covered in heather moorland, an internationally important habitat. Much of the Country Park is common land, where numerous farmers have the rights to graze sheep. Heather moorland has always been important for this purpose but it needs managing to get the best out of it. A combination of burning and cutting encourages new heather to grow and provides fresh grazing for sheep. It also creates excellent nesting and feeding areas for upland birds. Of particular importance is the black grouse, one of the rarest birds in Wales, but found here in small numbers – between 10 and 20 males have been counted here in recent years. Very early on spring mornings the male black grouse gather together to display and compete for the females. This "lekking" is an extraordinary spectacle.



*Plas Isaf, Llangynhafal / Clwyd Hall, ger Rhuthun*

*Plas Isaf, Llangynhafal / Clwyd Hall, near Ruthin*



## ENWAU

Mae yna nifer o straeon yngylch gwreiddiau'r enw Llangynhafal. Mae'r mwyaf ffansiol yn awgrymu mai llygredigaeth yw o 'can' ac 'afal', h.y. plwyf y can afal, ac mae'n cyfeirio at glerigwr a anfonodd gant o afalau at yr esgob, pob un yn cynnwys darn o aur, er mwyn sicrhau swydd yn y plwyf. O ystyried fod 100 darn aur yn swm sylweddol a'r plwyf yn gymharol dlawd, mae hyn yn go annhebygol. Esboniad mwy credadwy yw ei fod wedi ei enwi ar ôl y cenhadwr Sant Cynhafal o'r 7fed ganrif, mab Sant Elgud ap Cadfarch ap Caradog Freichfras. Mae'r plwyf yn dal i ddathlu Gŵyl y Mabsant ar 5 Hydref.

Mae gan yr enw Gellifor darddiad clir: 'gelli' sy'n cyfeirio at gelli o goed cyll a 'mor' sy'n golygu mawr. Mor bell yn ôl â 1836, mae Map y Degwm yn dangos ardal goediog pum acer, a elwir yng Nghoed Copi, mewn cae y tu ôl i Gellifor Farm. Credir fod y goedwig wedi ei dymchwel i gael pren yn ystod yr Ail Rhyfel Byd.

Hendre yr Owithe oedd enw'r drefgordd a sefydlwyd yn 1533 neu 1538 a ddatblygodd hyn yn naturiol i'w ffurf bresennol, sef Hendrerwydd, sef hendre'r coed yw.

## NAMES

There are several stories around the origins of the name Llangynhafal. The most fanciful suggests it is a corruption of 'can' and 'afal', i.e. the parish of the hundred apples, and refers to an ecclesiastic who sent the bishop a hundred apples, each containing a gold coin in order to secure a job at the parish. Given that 100 gold coins was a hefty sum and the parish relatively poor, this seems extremely unlikely. A more plausible explanation is that it is named after the 7th-century missionary, Saint Cynhafal, the son of St Elgud ap Cadfarch ap Caradog Freichfras. The parish still celebrates his Saints Day on October 5th.

The name Gellifor has a clear derivation: 'gelli' meaning hazel grove and 'fawr' meaning big. As late as 1836 the Tithe Map shows a five-acre wooded area, known as Copi Wood, in a field behind Gellifor Farm. It is believed the wood was felled for timber during the Second World War.

The township of Hendrerwydd was given in 1533 or 1538 as Hendre yr Owithe and by a natural development, took its present form: the hendre of the yew trees.

## HISTORY OF THE VILLAGES

*Elizabeth Jones a'i mab Ted tu allan i Pen Rhos yn 1900*

*Elizabeth Jones and her son Ted outside Pen Rhos in 1900*



### DECHRAU'R GANRIF DDIWETHAF

Mae plwyf Llangynhafal wedi newid cryn dipyn ers dechrau'r 20fed ganrif. To gwellet oedd gan nifer o'r tai ac, wrth gwrs, doedd yna ddim ceir bryd hynny a cheffylau a ddefnyddiwyd i deithio. Mae Miss Dilys Davies a Mrs Ada Jones yn cofio dulliau eraill o deithio: Roedd gan Mr Evan Roberts wagon fach a oedd yn dal deg o deithwyr ac yn gadael y Golden Lion i fynd i Ruthun bob dydd Mercher am 11 y bore, ac yn dod yn ôl am 5. Roedd yn arbennig o boblogaidd yn ystod y tymor ffrwythau pan fyddai pobl yn gwerthu eu cynnrych yn y dref (roedd eirin duon yn costio 1d neu 1/2d y pwys). Roedd merlyn a thrap ym Mhen Stryt a Phen Rhos yn rhedeg I ac o orsaf Rhewl ac yn Rhos Place roedd gan Mr a Mrs Griffiths asyn a chart a fyddai'n mynd a dau neu dri o deithwyr i Ruthun am 2d y pen.

### EARLY LAST CENTURY

Llangynhafal in the early 20th-century looked very different to today's parish. Many of the houses were thatched and there were, of course, no cars in those days, instead horses provided transportation. Miss Dilys Davies and Mrs Ada Jones remember the options available: Mr Evan Roberts had a wagonette, which held ten passengers and left the Golden Lion for Ruthin every Wednesday at 11am, returning at 5pm. It was especially popular during the fruit season when folk sold their produce in town (damsons were 1d or 1/2d per pound). A pony and trap at Pen Stryt and Pen Rhos ran to and from Rhewl station and at Rhos Place Mr and Mrs Griffiths had a donkey and cart, which would take two or three passengers to Ruthin for 2d a head.

### TEULUOEDD

Gall y teulu Williams / Jones / Foulkes olrhain eu cysylltiad â'r plwyf trwy sawl cenhedlaeth, ac mae'r cysylltiad yn parhau hyd heddiw:

*Mae Miss Dilys Jones yn adrodd hanes ei hen hen daid, un o'r teulu Foulkes, a ymfudodd i America yn y 19eg ganrif. Bu farw yno yn ddiewyllys, gan adael tir yn Efrog Newydd lle saif Gwesty'r Waldorf bellach ac, yn ôl y sôn, ni drafferthodd y teulu i hawlio'r ystâd erioed...*

### FAMILIES

The Williams / Jones / Foulkes family can trace its connection to the parish through many generations, and are still associated with it today:

*Miss Dilys Jones tells of her great-great-grandfather, one of the Foulkes family, who emigrated to America in the 19th century. He died there intestate, leaving land in New York on which the Waldorf Hotel now stands, and it is said the family simply never got round to making a claim on the estate...*



Torf yn bresennol yn agoriad swyddogol y gwaith dŵr yn Nant y

Ne ym Mehefin 1912

A large crowd in attendance at the official opening of the water  
works at Nant y Ne in June 1912

*Dechreuodd gwaith ar y gwaith dŵr i  
gyflenwi pentrefi Llangynhafal a  
Hendrerwydd yn 1911. Mae'r safle, sy'n  
segur bellach yn rhan o dir sy'n eiddo i'r teulu  
Whittingham yn Llanbedr Farm. Gandynt  
hwy y cafwyd y llun hwn.*

*Work began on the water works to supply the  
villages of Llangynhafal and Hendrerwydd  
in 1911. Now redundant, the works form part  
of land owned by the Whittingham family at  
Llanbedr Farm, who supplied this photograph.*

## DŴR

Mae'n rhaid bod y Ffynnon Sanctaidd, na fyddai byth yn sychu, yn ôl y sôn, wedi bod yn rheswm allweddol dros sefydlu'r plwyf. Tan 1911, roedd y plwyf cyfan yn ddibynnol ar adnoddau naturiol. Mae Mr Huw Roberts, Tŷ Gwyn, yn disgrifio mynd i bwmp ger y ffordd ym Mhen Stryt, lle byddai pob teulu'n cael llenwi llond dwy fwced bob dydd. Mae Mrs Davies Bodawen yn cofio'r ymdrech i gael dŵr yn 1904:

*"Roedd yna fisoedd sych iawn, iawn. Roedd y ffynnon ym Mhen Ucha dros wyth troedfedd o ddyfrnder. Unwaith i honno sychu, aethon ni â chasgen i Cyffion, ond roedd rhai yn mynd yr holl ffordd i Dôl y Caeau ar y mynydd."*

Mae Mrs Davies hefyd yn cofio pobl yn mynd heibio i'r fferm i gasglu dŵr:

*"Roedd yn rhaid i bawb fod mor o falus gyda dŵr. Doedd ymwellwyr byth yn taflu'r dŵr o'u basn ymolchi, ond roedden yn ei gadw i olchi eu dwylo cyn cinio. Aeth y prinidr dŵr ymlaen am flynyddoedd..."*

Roedd yna brotestiadau yn erbyn y cynigion gwreiddiol i gael crónfa ar gyfer y plwyf, ac yn 1897 ymddengys nad oedd yr ymholiadau ynghylch y gost o gael pibell ddŵr o'r mynyddoedd am ddwyn ffrwyth. Yn Hendrerwydd, roedd y teuluoedd yn ddibynnol ar y ffrwd a oedd yn rhedeg heibio'r rheithordy a Phlas Isa i'r pentref. Yn 1904, cynhalwyd cyfarfod ar y cyd rhwng cyngorau plwyf Llangynhafal a Llanychan a galwad ar y cyngor dosbarth "i ddarparu cyflenwad digonol o ddŵr i'r ardal" ac yn 1906, cymeradwywyd cynlluniau ar gyfer y gronfa yn Nant y Ne. Roedd y dŵr yn rhedeg i safbibellau i ddechrau, nes llwyddwyd i gysylltu cartrefi i'r cyflenwad.



Mae Mrs Ada Jones yn adrodd hanes hen gwpwl o'r enw, William ac Anne Edwards:

*"Gosodwyd tap ychydig gamau o'u drws, ond roeddynt yn gwrthod yn lân a'i ddefnyddio, gan ddweud: rydyn ni wedi defnyddio dŵr o'r ffrwd erioed, ac mae'n dal i fod yn ddigon da i ni."*

## COMMUNITY AND RURAL LIFE

### *Dyffryn Clwyd o'r Ffynnon Sanctaidd*

*The Vale of Clwyd from the Holy Well*



### *Y Ffynnon Sanctaidd*

*The Holy Well*

## WATER

The Holy Well, with its reputation of never running dry, must have been a vital factor in the establishment of the parish. Until 1911, the whole parish was dependant on natural resources. Mr Huw Roberts, Tŷ Gwyn, describes going to a pump at the roadside by Pen Stryt, where two buckets full per household was the daily ration. Mrs Davies of Bodawen recalls the search for water in 1904:

*"There were very, very dry months. The well at Pen Ucha was over eight feet deep. When that ran dry, we took a barrel to Cyffion, but some went right up to Dol y Caeau on the mountain."*

Mrs Davies also remembers people passing the farm to get water:

*"Everyone had to be so careful with water. Visitors never threw away water in their wash basins, but saved it to wash their hands before dinner... The water shortages went on for years..."*

There were protests against initial proposals for a reservoir to serve the parish, and 1897 enquiries into the cost of piping water from the mountains seem to have come to nothing. In Hendrerwydd the families were dependant on the stream running past the Rectory and Plas Isa into the hamlet. In 1904 a joint meeting between the parish councils of Llangynhafal and Llanychan called upon the district council "to furnish adequate supply of water to the district", and in 1906 plans for the reservoir at Nantynef were approved. Supplies initially ran to stand pipes until the houses could be connected.

Mrs Ada Jones tells of an old couple, William and Anne Edwards,

*"A tap was installed a few paces from their door, but they flatly refused to use it, saying: we've always used the water from the stream and it's still good enough for us."*

## SEFYDLIAD Y MERCHED

Sefydlwyd Sefydliad y Merched Llangynhafal yn 1923 a hon yw un ganghennau hynaf y sefydliad; cafodd ei sefydlu ddeng mlynedd ar ôl y gangen gyntaf ym Môn.

Sgiliau domestig oedd conglfaen y sgyrsiau a'r gweithgareddau cynnar. Hyd yn oed pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd, jam oedd un o'r gweithgaredd craidd ynghyd â dysgu sut i wneud bagiau ar gyfer mygydau nwy, gweu sgwariau ar gyfer cwiltiau i faciwâs a chasglu metel sgrap.

Heddiw mae llai o bwyslais ar y cartref yn y cyfarfodydd ac, yn hytrach, mae'r Sefydliad yn gweithio i alluogi merched i gymryd rhan lawn mewn bywyd a datblygiadau cefn gwlad.

## THE WOMEN'S INSTITUTE

Established in 1923, the Llangynhafal Women's Institute is one of the senior branches of the organisation, formed ten years after the first branch in Anglesey.

Domestic skills were the staple of the early talks and activities. Even with the outbreak of the Second World War, fruit preservation was a core activity alongside demonstrations on making gas mask bags, knitting squares for evacuee quilts and collecting scrap metal.

Today the meetings are less domestically orientated, and instead the Institute works to enable women to take an active role in rural life and development.

*Sefydliad y Merched yn y 1950au*

*Womens Institute in the 1950's*



*The Golden Lion, Llangynhafal**Y siopau yn Hendrerwydd**The shops in Hendrerwydd***TAFARNDAI**

Mae'r Golden Lion wedi bod yn galon i fywyd y plwyfers y 18fed ganrif, er y cafodd sawl enw gwahanol dros y blynnyddoedd gan gynnwys y Red Lion ac, yn syml, y Lion. Yn lleol fe'i hadwaenir fel The Hand, o bosibl am iddo gael ei redeg unwaith gan Fragdy Hand, Rhuthun. Prynodd y bragdy'r White Horse yn Hendrerwydd hefyd yn 1913. Roedd tafarn arall, y Star ar y ffordd uchaf, ac roedd hon yn dafarn rydd a chanddi stablau a gefail gof gerllaw.

**SIOPAU**

Gwyddom y bu tair siop yn y plwyf. Yn Hendrerwydd, roedd un yn rhan o'r eiddo sydd bellach yn rhan o'r White Horse. Yn ddiweddarach, roedd y busnes yn cael ei redeg mewn adeilad haearn rhychiog gerllaw.

Roedd dwy siop yng Ngellifor - un yng nghanol y pentref a'r llall yn yr adeilad a elwir yn Mount Pleasant bellach ar waelod Hwylfa Llwyn.

Mae Hendrerwydd nawr yn gornel dawel o'r plwyf, ond mae'n debyg y bu'n fan prysur ar un adeg. Yn Groesffordd, roedd Mr Daniel Williams yn rhedeg busnes bwtsiera ffyniannus, gan deithio'n wythnosol ar y trap a'r trêñ i fynd â'i gig i Farchnad St John's, Lerpwl.

**PUBS**

The Golden Lion has been at the heart of parish life since the 18th century, albeit under several names including the Red Lion and simply the Lion. Locally it was known as The Hand, possibly as it was once run by the Hand Brewery of Ruthin. The White Horse in Hendrerwydd was also acquired by the brewery in 1913. Another pub, the Star on the upper road, was a free house with stabling and a smithy alongside.

**SHOPS**

Three shops are known to have existed in the parish. In Hendrerwydd one occupied part of the premises now included in The White Horse. Later, business was done in a corrugated iron building nearby.

There were two shops at Gellifor – one in the centre of the hamlet and the other in the building now known as Mount Pleasant at the foot of Hwylfa Llwyn.

Hendrerwydd is now a quiet corner of the parish, but it must once have been a busy spot. At Groesfordd, Mr Daniel Williams ran a thriving butchery business, making weekly trips by trap and train to take his meat to St John's Market, Liverpool.



*Ail-greu bywyd yn Hendre'r-ywydd Uchaf  
Reconstruction of life at Hendre'r-Ywydd Uchaf*

*Datgymalu Hendre'r-ywydd Uchaf yn 1954  
a'i ail godi yn Amgueddfa Werin Cymru,  
Sain Ffagan*

*Dismantling of Hendre'r Ywydd Uchaf in 1954 and  
re-erection at the National History Museum, St Fagans*



*(b) Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru  
(c) St Fagans: National History Museum*

## HENDRE'R-YWYDD UCHAF

Mae yna nifer o dai diddorol yn y plwyf, ond y mwyaf adnabyddus yw, neu oedd yn hytrach, Hendre'r-ywydd Uchaf, a ddatgymalwyd yn 1954 a'i ailgodi yn Sain Ffagan, ger Caerdydd. Roedd hwn yn dŷ hir Cymreig traddodiadol, yn dyddio o 1470-1500, gyda lle i gadw gwartheg yn un pen a llety byw yn y pen arall. Roedd hefyd yn enghraifft dda o adeiladwaith 'nenfforch', a oedd yn galw am ddefnyddio trawstiau bras sengl o goed naturiol grwm yn codi'n llorweddol o lefel y ddaear i gwrdd yng nghrib y to. Yn wreiddiol roedd ganddo do gwellet, gyda'r gwellet yn gorffwys ar estyll derw fflat, gyda llathau derw wedi eu plethu â nhw.

## HENDRE'R YWYDD UCHAF

There are many interesting houses in the parish, but the best-known is, or rather was, Hendre'r Ywydd Uchaf, which was dismantled in 1954 and rebuilt at St Fagan's near Cardiff. This was a typical Welsh long house, dating from 1470-1500, with space for cattle at one end and living accommodation at the other. It is also a fine example of a 'cruck' construction which involved the use of single baulks of naturally-curved timber rising vertically from ground level to meet at the roof ridge. It was originally thatched, the thatch resting on flat oak stakes, with oak rods interwoven.



*Tŷ Coch, Llangynhafal*

### TŶ COCH, LLANGYNHAFAL

Mae Tŷ Coch yn enghraifft o Dŷ Neuadd Ffrâm Nenfforch o'r 14eg ganrif, yn dal i sefyll yn Llangynhafal, sydd wedi ei adfer yn ofalus. Wedi ei addasu sawl gwaith ar hyd y cenedlaethau, cyn ei adfer, fe'i defnyddiwyd i ddibenion amaethyddol. Mae Hywel a Gruff Richards a oedd yn ffermio yn Nhŷ coch yn cofio magu lloï yn y beudy tan y 1990au. I atal dirywriad pellach a'r risg o golli Tŷ Coch, cynhaliodd y cyngor brosiect adferiad a chysylltu'r beudy i'r sied wagenni gyda mynedfa wydr i sicrhau'r adeilad am genedlaethau i ddod i'w edmygu a mwynhau.

### TŶ COCH, LLANGYNHAFAL

Tŷ Coch is the example of a 14th Century Cruck Framed Hall House, still standing in Llangynhafal, which has been beautifully restored. Adapted a number of times across the generations, prior to its restoration, it was used for agricultural purposes. Hywel and Gruff Richards who farmed Tŷ Coch recall rearing calves in the barn until the 1990s. To prevent further decay and risk losing Tŷ Coch, the council carried out the restoration project and connected the barn to the wagon shed with a glass entrance hall securing the building for future generations to admire and enjoy.

## PLAS IAGO

Mae Plas Iago, neu Y Sied Goch, hefyd yn dangos olion adeiladwaith ‘nenfforch’, ond yn yr achos hwn, mae'r crymiadau mewnol wedi ei lifo i ffwrdd. Mae'r adeilad, a ddefnyddir bellach fel beudy, wedi ei addasu i'r fath raddau fel ei bod yn anodd dychmygu nawr sut edrychai yn wreiddiol. Credir iddo gael ei ddefnyddio fel gefail i bedoli gwartheg ar gyfer marchnadoedd Lloegr, ac fe ddywedir bod esgidiau gwartheg neu ‘giwiau’ wedi eu canfod mewn caeau gerllaw. Mae ardal gyferbyn â Cyffion hefyd wedi ei nodi ar hen fapiau fel ‘ffald gwartheg’. Gwyddom fod Edward Ellis, garddwyr, yn byw ym Mhlas Iago yn 1841, gyda'i wraig a thri o blant, ac yn 1851 roedd gan David Jones, gwneuthurwr esgidiau, weithdy yma.



*Plas Iago yn ei gyflwr presennol*

*Plas Iago in its current condition*

## PLAS IAGO

Plas Iago or Y Sied Goch also shows traces of ‘cruck’ construction, but in this case the inward bending curves have been sawn off. The building, now used as a barn, is so altered that it is difficult to imagine how it originally looked. It is believed to have been used as a smithy for the shoeing of cattle intended for the English markets, and cattle shoes or ‘cues’ are said to have been found in nearby fields. An area opposite Cyffion is also marked on old maps as ‘cattle pound’. It is known that in 1841 Plas Iago was occupied by Edward Ellis, a gardener, with his wife and three small children, and in 1851, David Jones, a shoe maker, had a workshop there.



*Wenallt*

## WENALLT

Roedd y rhan fwyaf o'r cartrefi hyn ar y darddlin yn fithynnod bach un llawr gyda adeiladau allanol gyferbyn. Roedd Wenallt yn dŷ to gwellt dau lawr gyda tho llechi ar yr adeiliad allanol mawr. Fe ymddengys fod ei safle yn y gymuned yn well na'r anheddu eraill cyfagos, gan fod 25 acer yn perthyn iddo a chyflwynwyd gwas yn ôl data Cyfrifiad o'r 19eg ganrif. Pan gwymppodd talcen y tŷ daeth dirywiad pellach, ond er hynny, hwn yw'r enghraifft orau o weddillion y tai anghyfannedd.

## WENALLT

Most of these spring line dwellings were small, single storey cottages with adjacent outbuildings. Wenallt was a two storey thatched house with a slate roof on the large outbuilding. It appears to have been of better standing in the community than the other nearby dwellings, farming 25 acres and employing a servant according to census data from the 19th Century. When the gable wall collapsed further deterioration resulted, but it is still the best example of the remaining abandoned houses.



### AROSFA 'TŶ UNNOS'

Dywedir os adeiladwyd pedair wal a tho i dŷ mewn diwrnod, a bod mwg yn codi o'r simdde erbyn y nos, gallai'r rhai a gododd y tŷ hawlio'r darn o dir a adeiladwyd arno. Gelwir y tai hyn yn lleol yn "Dai unnos", ac fe gredir bod Arosfa, a'i gymydog Brynteg, a "Thŷ Unnos" yn Llanynys gerllaw oll wedi eu codi yn y dull hwn.

Mae deiliad presennol Arosfa, Brian McGinty, yn dweud y bu cymuned Gellifor yn hir yn datblygu oherwydd nad oedd dŵr tap ar gael. Fe ystyriwyd hyn wrth adeiladu Arosfa, neu o leiaf yn fuan wedyn. Roedd gwteri yn casglu dŵr, a storiyd mewn ffynnon dan yr ardd flaen a gwneud yr eiddo'n hunangynhaliol o ran dŵr. Mae'r ffynnon yn dal i sefyll ac fe'i haddaswyd gan Mr McGinty i gynnwys wyneb, y mae'r dŵr yn dod allan ohono wrth ei bwmpio – a difyrodd hyn ei blant am oriau yn ystod eu plentyndod.

### AROSFA "TŶ UNNOS"

It is said that if a house could have four walls and a roof built in a day, with smoke coming out of the chimney at nightfall, those who built the house may claim the plot of land it was built on. These houses are known as "Tŷ Unnos" and Arosfa, neighbouring Brynteg, and "Tŷ Unnos" in nearby Llanynys are all believed to have been built this way.

The current occupant of Arosfa, Brian McGinty, tells of how Gellifor was a late developing community due to lack of running water. This was taken into account when Arosfa was built, or at least soon after. Gutters collected water, which was stored in a well underneath the front garden making the property self-sufficient for water. The well still stands in the garden and was modified by Mr McGinty to feature a face, which water comes out of when pumped, a feature his children spent hours playing with throughout their childhood.



TY'N Y PISTYLL

Am beth amser roedd Ty'n y Pistyll yn eiddo i'r teulu Thomas o Helygain a Llangynhafal, a oedd hefyd yn berchen ar Ben y Bryn. Mae hen lun yn dangos to llechi ar y tŷ, a oedd yn anarferol ar dai a godwyd mor uchel ar y mynydd – roedd gan y rhan fwyaf o'r bythynnod eraill gerllaw do gwelt. Dyma oedd un o'r tai olaf i'w adael yn wag, ac mae data cyfrifiad yn dangos iddo gael ei adael yn wag rwydro rhwng 1891 a 1901.

Ty'n y Pistyll was owned for some time by the Thomas family of Halkyn and Llangynhafal, who also owned Pen y Bryn. An old photograph shows a slate roof on the house, which was unusual for houses so far up the mountain – most other nearby cottages were thatched. It was one of the latter houses to be lived in, with census data showing it was abandoned between the 1891 and 1901 census.

Dewis o gylchdeithiau didorol, sy'n croesi **Dyffryn Clwyd, Parc Gwledig Moel Famau a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa**. Mae'r llwybrau yn mynd heibio i nifer o nodweddion hanesyddol, gan gynnwys safleoedd wyth o ffermdai anghyfannedd, ffynnon sanctaidd hudol ac eglwys drawiadol **Sant Cynhafal**.

PELLTER

**Llwybr Coch** 7 km | 4.3 milltir  
**Llwybr Glas** 7.7 km | 4.8 milltir

**Brasamcan o hyd y daith:**  
**Llwybr Coch** 2 – 2.5 awr  
**Llwybr Glas** 2.5 – 3 awr  
OS Map 265 Bryniau Clwyd

*Gwisgwch  
esgidiau cryfion  
cyfforddus ac  
ewch â dillad  
rhag glaw*

A choice of interesting circular routes, which take in the **Vale of Clwyd, Moel Famau Country Park** and **Offa's Dyke Path National Trail**. The routes pass a number of historic features, including the sites of eight abandoned farm houses, a magical holy well and the striking **St Cynhafal's church**.

DISTANCE

**Red Route** 7 km | 4.3 miles  
**Blue Route** 7.7 km | 4.8 miles


*Approximate duration:*  
**Red Route** 2 – 2.5 hours  
**Blue Route** 2.5 – 3 hours  
OS Map 265 Clwydian Range

*Wear stout  
comfortable  
footwear  
and take  
waterproofs*

DELWEDDAU



IMAGES



Gwelir **Rugiar Ddu** (*Tetrao tetrix*) mewn cynefinoedd ucheldir trwy gydol y flwyddyn, ond maent yn fwy amlwg yn ystod mis Ebrill a mis Mai gyda'r wawr ac wrth i'r haul fachlud pan fydd y gwrywod yn denu'r benywod gyda galwadau byrlymog a'u hymustumiau. Mae'r rugiar ddu yn bwydo ar egin, blagur, cynffonnau wyn bach a mwyar.



Gwelir **Melyn yr Eithin** (*Emberiza citronella*) trwy gydol y flwyddyn ar dir agored lle ceir llwyni a gwrychoedd. Mae'n bwydo ar hadau a phryfed.

Mae **Mwyalchen y Mynydd** (*Turdus torquatus*) yn cyrraedd ym mis Mawrth ac Ebrill ac yn gadael eto ym mis Medi. Fe'i gwelir ar dir uchel, yn bwydo ar bryfed a mwyar.

Mae'r **Cudyll Coch** (*Falco tinnunculus*) i'w weld trwy'r flwyddyn mewn amrywiaeth o gynefinoedd megis rhostir, gweundir, tir fferm ac ardaloedd trefol. Mae'n bwydo ar anifeiliaid ac adar bach. Mae'n hawdd eu hadnabod yn ôl eu dull o hela, gan hofran tua 10-20 metr uwchben y tir.

Gwelir **Madfallod** (*Lacerta vivipora*) rhwng mis Mawrth a mis Hydref mewn cynefinoedd megis rhostir, ymylon coedwigiaedd a glaswelltiroedd. Yn ystod y gaeaf, maent yn gaeafu tan ddaear neu mewn walau cerrig. Maent yn bwydo ar bryfed a phryfed cop.

Gwelir y **Carlwm** (*Mustela erminea*) trwy'r flwyddyn ar dir fferm a choetir ar draws y Deyrnas Unedig. Maent yn bwydo ar gwningod, pysgod, adar helwriaeth, llygod mawr, llygod, llygod y dŵr ac ymlusgiaid.

Mae **Sgwarnogod** (*Lepus europaeus*) i'w gweld trwy'r flwyddyn, ond yn bennaf ym Mawrth a mis Ebrill yn ystod y tymor bridio, pan welir benywod anfodlon yn 'paffio' gyda'r gwrywod. Fe'i ceir mewn glaswelltiroedd, rhostiroedd, tir fferm a choetir. Mae sgwarnogod yn pori ar lystyfiant ac yn cnoi rhisgl coed ifanc a gwrychoedd.

**Black Grouse** (*Tetrao tetrix*) are found in upland habitats all year round, but are more noticeable during April and May at dawn and dusk when the males attract females with bubbling calls and posturing. Black grouse feed on buds, shoots, catkins and berries.

**Yellowhammer** (*Emberiza citronella*) is found all year round in open countryside with bushes and hedgerows. Feeds on seeds and insects.

**Ring Ouzel** (*Turdus torquatus*) arrives in March and April and leaves again in September. They are found in upland areas, feeding on insects and berries.

